


# YNYSOEDD ADDOLIAD SANCTAIDD



## Disgrifiad:

Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw datblygu dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd. Mae hyn yn ganolog i Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Bydd y prosiect hwn yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr holi, archwilio ac ymchwilio i'w byd a datblygu gwerthfawrogiad o hunaniaeth, treftadaeth a chynefin.

Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i drafod crefydd a beth mae'n ei olygu iddyn nhw. Byddan nhw'n archwilio crefyddau gwahanol yng Nghymru a ledled y byd. Byddan nhw'n gwneud gwaith ymchwil cyn cynllunio symbol, man addoli neu gerflun yn Minecraft: Education Edition. Byddan nhw'n rhannu eu gwaith gydag eraill er mwyn eu haddysgu am grefyddau gwahanol ac yn helpu i ddatblygu dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

## Datganiad Cyffredinol

Cafodd y prosiect Minecraft: Education Edition yma ei ddatblygu i gyfoethogi'r gwaith o gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru. Er bod **Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh)** penodol wedi'u nodi yn y Cynllun Gwaith yma, dydyn nhw **ddim** yn rhagnodol - dehongliad yr awduron ydyn nhw. Dylai addysgwyr ddehongli'r Cynllun Gwaith yma a'r dogfennau cymorth gwersi a'u cymhwyso mewn ffordd a fydd yn gweddu i'r grwpiau oedran perthnasol o ran hyd a lled eu defnydd (ac ystyried unrhyw Feysydd Dysgu a Phrofiad perthnasol eraill).

Yn y dogfennau Cymorth Gwersi, caiff manylion am y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig mewn perthynas â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad perthnasol eu nodi'n benodol, a hefyd caiff sgiliau trawsgwricwlaidd eu nodi, sef: llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Lle y bo'n briodol, mae yna gyfeiriadau hefyd at y [Fframwaith Cymhwysedd Digidol a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol](#).

Rhywbeth sydd wrth galon a chraidd prosiectau Minecraft: Education Edition Hwb yw datblygu pedwar diben craidd y Cwricwlwm i Gymru a'r sgiliau hollbwysig sylfaenol, sef **Creadigrwydd ac arloesi, Meddwl beirniadol a datrys problemau, Effeithiolrwydd personol a Chynllunio a threfnu**. Fel hyn, bydd modd darparu cwricwlwm integredig a chyfannol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain i ysbrydoli ieuencid Cymru i gyfrannu'n arloesol at eu cymunedau trwy gwmpasu diwylliant, daearyddiaeth, hanes ac iaith ein cenedl, yn ogystal ag ymdeimlad o berthyn.

## Maes Dysgu a Phrofiad

- **Y Dyniaethau**

## Sgiliau Trawsgwricwlaidd

- **Rhifedd**
- **Llythrennedd**
- **Cymhwysedd digidol**
- **Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol**



**Amcanion Dysgu sy'n cael eu cwmpasu****Dysgu, ymarfer a gweithgareddau****Cam 1: Cyflwyniad ac ymchwilio**

Bydd dysgwyr yn trafod crefyddau gwahanol. Byddan nhw'n casglu gwybodaeth am grefyddau ac yn darparu trosolwg o'r crefyddau hyn.

**Amcanion Dysgu**

- Dwyn i gof gwybodaeth flaenorol am grefyddau gwahanol.
- Casglu gwybodaeth
- Darparu trosolwg

**Elfennau'r wers:**

- Cyflwyno'r dasg
- Bydd dysgwyr yn gwyllo'r fideo 'Peace Mala – The Dove's Journey' gan Ysgol Gynradd Hafod ac yn trafod y fideo.
- Bydd dysgwyr yn ymchwilio i 4 crefydd wahanol ac yn darparu trosolwg o bob un.



**Amcanion Dysgu sy'n cael eu cwmpasu****Dysgu, ymarfer a gweithgareddau****Cam 2: Ymchwil**

Bydd dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau, mewn parau neu fel unigolion i ddewis un grefydd, gwneud rhagor o waith ymchwil a phenderfynu ar adeilad.

**Amcanion Dysgu**

- Casglu gwybodaeth am y grefydd sydd wedi'i dewis
- Cynnwys manylion am eu ffocws ar gyfer yr adeilad

**Elfennau'r wers:**

- Bydd dysgwyr yn ymchwilio i'r grefydd sydd wedi'i dewis
- Byddan nhw'n casglu gwybodaeth o ffynonellau gwahanol
- Bydd dysgwyr yn gwneud cyflwyniad PowerPoint yn ymwneud â'r grefydd
- Bydd dysgwyr yn cynnwys manylion am eu ffocws (gallai fod yn fan addoli, yn gerflun neu'n symbol) a fydd yn cael eu hadeiladu ganddyn nhw yn Minecraft: Education Edition



**Amcanion Dysgu sy'n cael eu cwmpasu****Dysgu, ymarfer a gweithgareddau****Cam 3: Cynllunio**

Bydd dysgwyr yn creu cynllun manwl o'u hadeiladwaith.

Bydd angen i ddysgwyr bennu maint a dimensiynau eu hadeiladwaith a'r blociau y byddan nhw'n eu defnyddio i greu nodweddion gwahanol.

Yna byddan nhw'n lluniadu eu cynllun graddfa ar bapur sgwariau. Byddan nhw'n creu amserlen ar gyfer eu gwaith ac yn neilltuo rolau.

**Elfennau'r wers:**

- Bydd dysgwyr yn cynllunio ac yn lluniadu i raddfa gywir yn Minecraft: Education Edition
- Bydd dysgwyr yn creu amserlen ar gyfer eu gwaith
- Bydd dysgwyr yn datblygu meini prawf llwyddiant i'w dilyn yn ystod y cam adeiladu

**Amcanion Dysgu**

- Gwneud penderfyniadau am beth i'w gynnwys yn eu gwaith adeiladu Minecraft: Education Edition a pham
- Creu cynllun manwl



**Amcanion Dysgu sy'n cael eu cwmpasu****Dysgu, ymarfer a gweithgareddau****Cam 4: Adeiladu**

Bydd dysgwyr yn defnyddio eu cynllun manwl i adeiladu yn Minecraft: Education Edition.

**Elfennau'r wers:****Amcanion Dysgu**

- Adeiladu man addoli, cerflun neu symbol sy'n gysylltiedig â chrefydd
- Dilyn cynllun i adeiladu'n gywir yn Minecraft: Education Edition

- Bydd dysgwyr yn ymuno â'r byd 'Ynysoedd Addoliad Sanctaidd'. Byddan nhw'n rhyngweithio ag NPCs i ddarllen rheolau a chanllawiau eraill yn ymwneud â'r dasg
- Bydd dysgwyr yn gwirio cynnydd yn erbyn cynlluniau, amserlenni a meini prawf llwyddiant
- Bydd dysgwyr yn gwerthuso eu hadeiladwaith



**Amcanion Dysgu sy'n cael eu cwmpasu****Dysgu, ymarfer a gweithgareddau****Cam 5: Rhannu gwybodaeth**

Bydd dysgwyr yn creu gwybodaeth gysylltiedig am y cynnwys sydd i'w rhannu o fewn eu hadeiladwaith drwy NPCs.

Byddan nhw'n rhannu gwybodaeth am eu hadeiladwaith gan ddefnyddio Sway, PowerPoint neu ddogfen ar-lein.

Hefyd, gall dysgwyr ychwanegu darnau llai o wybodaeth am eu hadeiladwaith trwy ddefnyddio 'Signs' a 'Chalkboards'.

**Amcanion Dysgu**

- Rhannu gwybodaeth a hyperddolen drwy NPCs
- Defnyddio 'Signs' a 'Chalkboards' i ddarparu gwybodaeth

**Elfennau'r wers:**

- Bydd dysgwyr yn dysgu sut i ddefnyddio nodweddion Education Edition: NPCs, Signs a Chalkboards
- Bydd dysgwyr yn defnyddio eu gwaith ymchwil ar PowerPoint ac yn casglu prif bwyntiau/gwybodaeth am eu hadeiladwaith dewisol
- Byddan nhw'n defnyddio NPC i gysylltu â'r ddogfen/ffeil ar-lein



**Amcanion Dysgu sy'n cael eu cwmpasu****Dysgu, ymarfer a gweithgareddau****Cam 6: Fideo Archwilio**

Bydd dysgwyr yn creu recordiad sgrin a throslais archwilio o'u hadeiladwaith.

**Amcanion Dysgu**

- Creu recordiad sgrin a throslais archwilio o'u hadeiladwaith
- Darparu trosolwg o'u prosiect
- Dysgu am grefyddau gwahanol ledled y byd drwy archwilio prosiectau dysgwyr eraill

**Elfennau'r wers:**

- Bydd dysgwyr yn cynllunio ac yn ymarfer eu fideo archwilio
- Bydd dysgwyr yn archwilio'r byd ac yn dysgu am brosiectau eu cyfoedion a'r grefydd maen nhw wedi'i dewis
- Bydd dysgwyr yn cyflwyno gwybodaeth ar lafar am eu hadeiladwaith ac am y crefyddau eraill y maen nhw wedi dysgu amdany'n nhw
- Bydd y dysgwyr yn cwblhau'r fideo tywys yn Flipgrid

